# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 12fed Mehefin, 2023**, yn Festri Capel Rhydbach, Botwnnog, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Siôn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Michael Strain (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Gwenan Griffiths, Elin Hughes, Glyn Roberts, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan J. Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Dylan Parry Jones, Efan Thomas

21. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

22. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

23. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 9fed MAI, 2023**

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 9fed Mai, 2023 gyda'r ychwanegiad a ganlyn – nodi fod y Cyngor wedi cefnogi cais (d) – cais C23/0367/32/LL – cais llawn i drosi adeiladau presennol i uned gwyliau ynghyd a datblygiadau cysylltiol – Dyffryn, Botwnnog.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams gyda phawb yn cytuno).

**Materion yn codi**

**(a) Eitem 11 Cadarnhau Cofnodion – eitem 11 – Archwilio'r Cyfrifon**

**Adroddodd** y Clarc fod yr Archwiliwr Mewnol bellach wedi archwilio'r cyfrifon ac fod popeth mewn trefn – anfonwyd yr adroddiad allan i bob aelod gyda'r rhaglen.

**Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad a'r ffurflen flynyddol a rhoddi hawl i Gadeirydd y Cyngor am 2022/23 a'r Clarc gymeradwyo'r cyfrifon ar ran y Cyngor.

**(b) Eitem 11 Cadarnhau Cofnodion – cymal (a)…Cronfa Cofid**

**Adroddodd** y Clarc:

***Potiau blodau***

iddi hi a'r Cynghorydd Glenys Williams ymweld â Chanolfan Arddio Tyddyn Sachau a chael arweiniad gan Stuart Ferrins mai crochan fyddai orau i'w gosod mewn mannau ar hyd y briffordd gan y byddai potiau llai yn hawdd iawn i'w dwyn. Anfonodd bris o £75 am un grochan wedi ei llenwi a blodau ond nid oedd y Clarc wedi rhoi yr archeb gan ei bod yn dal i ddisgwyl am ymateb Cyngor Gwynedd ynglyn a'r drwydded.

'Roedd cais ynghyd a dau e-bost atgoffa wedi ei anfon at y Swyddog perthnasol yng Nghyngor Gwynedd i gael trwydded i osod y potiau mewn gwahanol leoliadau – y neges diweddaraf oedd fod y cais yn cael ei brosesu.

***Hysbysfyrddau***

iddi gael ymateb gan Ganolfan Congl Meinciau eu bod yn fodlon rhoi hysbysfwrdd i fyny yno ond gofynnwyd a fyddai modd iddynt hwythau gael rhoi posteri yn yr hysbysfwrdd hefyd.

Adroddodd y Cynghorydd Glyn Roberts nad oedd gan Ganolfan Bryncroes na Phwyllgor Neuadd y Sarn wrthwynebiad i'r cais gael gosod hysbysfwrdd ar eu

hadeiladau.

***Lloches bws***

Derbyniwyd ymateb gan Reolwr Meddygfa Rhydbach yn hysbysu nad oedd yn bosibl ar hyn o bryd gytuno i gyfarfod cynrychiolwyr o'r Cyngor oherwydd pwysau gwaith. Aeth y Rheolwr ymlaen i ddweud eu bod yn hapus i gael lloches bws ger y Feddygfa ar yr amod na fyddai yn effeithio ar gleifion yn mynd a dod o'r Feddygfa. Tynnodd sylw y byddai lloches bws ger y 'bus stop' ochr y Feddygfa yn creu rhwystr i'r llwybr cerdded gan ei fod yn gul. Gofynnodd am gael ailddatgan nad oedd ganddynt wrthwynebiad i'r Cyngor osod lloches bws ar y safle ond fod fandaliaeth yn dal yn gonsyrn ganddynt.

**Penderfynwyd**

(1) Symud ymlaen i archebu'r potiau blodau er nad oedd y drwydded i law.
(2) Peidio archebu'r hysbysfyrddau ar hyn o bryd hyd nes bydd y cais am grant yn barod i'w roi i fewn i AHNE Llyn.
(3) Ceisio cael pris am loches bws fel yr un sydd yn Mynytho.

**(c) Eitem 13 – Materion Ffyrdd a Llwybrau**

**Derbyniwyd** ymateb Peiriannydd Ardal Dwyfor i gwynion anfonwyd i'w sylw:

"y ffordd o Saithbont am Rhiw wedi ei harchwilio ac mae'r diffygion brys wedi'u pasio i'r uned waith i roi sylw iddynt. Mae'r tyllau sydd ddim yn ddiffygion brys hefyd wedi eu nodi a byddant yn cael sylw pan mae adnoddau ar gael.

Cyfeirir y mater yma" (sef angen llinellau 'Give Way' ar y ffordd sy'n arwain o'r Ystad Dai ym Motwnnog i'r ffordd sy'n arwain o Cae Caead i'r briffordd) "i'w drafod ymhellach gyda'r Datblygwr fel rhan o'r gwaith i ddarparu'r stad i safon mabwysedig."

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

**Yn y cyswllt hwn** cyflwynwyd ymateb Iwan ap Trefor, Rheolwr Traffig a Phrosiectau Cyngor Gwynedd i'r cais am gael cylchfan ym Mhenygroeslon:

"Yn dilyn y cyfarfod safle gyda'r Cynghorydd Gareth Williams rydym yn llwyr ddeall yr angen i edrych ar y trefniant traffig yn y lleoliad canlynol.

Fel y gwyddoch mai llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y byddent ddim yn cefnogi cynlluniau Trafnidiaeth os nad oes yna fuddion newid hinsawdd yng nghlwm gydag unrhyw newid. Fel rydych hefyd yn ymwybodol mae Cynghorau Lleol yn mynd trwy gyfnod o doriadau yn dilyn yr heriau chwyddiant. Felly, yn y dyfodol agos, nid rwyf yn rhagweld y byddai yna lawer o gyfleoedd yn codi i ariannu project sylweddol fel creu cylchfan newydd.

Er hynny, credwn y byddai synhwyrol i'r gwasanaeth cynhyrchu astudiaeth dichonoldeb i adnabod beth yw'r opsiynau sy'n agored i wasanaeth. Bwriad yr adroddiad yw i adnabod os byddai dechnegol bosib uwchraddio'r croesffordd canlynol i chylchfan yn ogystal ag gweld os oes yna opsiynau yn y tymor byr y byddai bosib i ni ei gyflwyno i wella sefyllfa presennol.

Byddwn yn cysylltu yn ôl a chwi yn mis Medi gyda argymelliadau'r adroddiad hynny."

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

**(ch)Eitem 17 – Cynigion ar gyfer cyfarfod cyffredinol 2023 Un Llais Cymru**

**Penderfynwyd** anfon y cynnig a ganlyn i'w ystyried :

"Oherwydd y pwysau gwaith cynyddol sydd ar Glercod Cynghorau Cymdeithas ar hyn o bryd a deunyddiau a rheolau newydd yn cael eu cyflwyno yn barhaus, teimlai'r aelodau fod yr holl waith a ddisgwylir i Glercod ei wneud am bitw o gyflog yn sarhaus. Oherwydd hyn gwelir nifer o gynghorau yn methu dennu clercod pan mae'r clerc presennol yn ymddeol, a'r gymuned yn dioddef oherwydd hynny. Oni ddylai

Un Llais Cymru ystyried pa gamau ddylid ei gymryd er sicrhau tegwch i glercod."
**Yn y cyswllt yma** ystyriwyd gwahoddiad i gynhadledd arloesol Un Llais Cymru yn Llanelwedd ar 5ed Gorffennaf – nid oedd unrhyw un yn dymuno mynd.

24. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD GARETH WILLIAMS, CYNGHORYDD PEN DRAW LLYN AR GYNGOR GWYNEDD**

**Cyflwynwyd** adroddiad y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd, yn rhoddi trawsolwg o'r hyn sydd ac wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf. (Copi o'r adroddiad wedi ei hanfon allan gyda'r rhaglen a bydd yn ffurfio rhan o'r cofnodion yma).

**Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad gyda diolch.

25. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ni dderbyniwyd unrhyw gais yn ystod y mis.

26. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

**Penderfynwyd**

(a) Gofyn am gael barbio y ffyrdd mor fuan a phosibl gan gyfeirio'n arbennig at Bedair Croeslon lle mae'n anodd gweld i ddod i'r briffordd.

(b) Ysgrifennu at AHNE Llyn yn gofyn am gael chwistrellu'r planhigyn 'Japanese Knotweed' sydd yn tyfu ger Llety, Bryncroes ac hefyd wrth yr afon ym Mryncroes.

(c) Rhoddi nodyn yng ngholofn pigion o Fotwnnog yn y Llanw yn codi ymwybyddiaeth am y planigyn yma.

27. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Y Clarc | £420.00 (siec 200792) |
| HMRC | £105.00 (siec 200793) |

28. **POLISI IAITH CYNGOR BOTWNNOG**

**Cyflwynwyd** er ystyriaeth, bolisi iaith ar gyfer Cyngor Botwnnog. (Copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen).

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r polisi iaith a rhoddi copi ar wefan y Cyngor. (Bydd copi o'r polisi yn ffurfio rhan o'r cofnodion).

29. **MODEL O REOLAU SEFYDLOG 2023 (CYMRU)**

**Cyflwynwyd** rheolau sefydlog newydd ar gyfer Cymru 2023.

Gan mai newydd dderbyn y ddogfen 'roedd y Clarc addawodd edrych drwyddi ac anfon ffersiwn ddiwygiedig i'r aelodau gael edrych drosto.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

31. **RHANNU CARTREF GWYNEDD**

**Derbyniwyd** gwybodaeth a phoster i'w arddangos yn lleol am 'Rannu Cartref Gwynedd' – cynllun sy'n helpu pobl i gefnogi 'i gilydd o dan yr un to.

**Addawodd** Y Cynghorydd Glyn Roberts y byddai'n dosbarthu'r posteri yn yr ardal.

32. **GARDD LONYDDWCH YM MHENRHYNDEUDRAETH**

**Cyflwynwyd** llythyr Angela Swann o Eglwys y Drindod Sanctaidd Penrhyndeudraeth yn hyrwyddo yr Ardd Lonyddwch ym Mhenrhyndeudraeth i goffau bywydau a gollwyd yn ystod pandemig COFID. Ynghlwm wrth y llythyr 'roedd posteri hyrwyddo i'w harddangos yn yr ardal.

**Addawodd** Y Cynghorydd Glyn Roberts y byddai dosbarthu'r posteri yn yr ardal.

33. **MYNWENT LLANDEGWNNIG**

**Cafwyd** cais gan Julie, Mam Emma Louise Morris o Greystones, Yr Ala, Pwllheli, am gael gosod mainc yn y Fynwent yn Llandegwnning. Bu farw Emma mewn damwain drasieg ar ffordd osgoi Felinheli ar 3ydd Ebrill, 2023, a hithau ond 28ain oed. 'Roedd y Fam yn dymuno cael myfyrio a chofio am Emma wrth gael treulio amser yn y Fynwent.

**Penderfynwyd** hysbysu Julie, Mam Emma, fod y Cyngor yn caniatau iddi roi mainc yn y fynwent yn amodol ei bod yn cael ei gosod wrth un o'r waliau terfyn ac nid yn rhwystro unrhyw lwybr.

Hefyd nodi o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch bydd asesiad risg yn cael ei gymryd yn flynyddol o gyflwr y fynwent a'r fainc ac os canfyddir fod cyflwr y fainc yn dirywio ac angen sylw bydd y Cyngor yn cysylltu.

34. **CAIS YSGOL BOTWNNOG AM GYFRANIAD ARIANNOL**

**Yn** dilyn cysylltu a Dirprwy Ysgol Botwnnog dair gwaith yn gofyn am fwy o wybodaeth beth fyddai'n digwydd ar y stondin 'roedd Clwstwr Ysgolion Botwnnog wedi ei archebu yn yr Eisteddfod Genedlaethol - ni dderbyniwyd unrhyw ymateb. 'Roedd y Cynghorydd Elin Hughes hefyd wedi holi yr un cwestiwn ond heb dderbyn atebiad.

**Penderfynwyd** ei adael y bwrdd.